

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	15 Medi 2021
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
TESTUN:	Adolygiad - Deddf Trwyddedu 2003 Datganiad Polisi Trwyddedu

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 I hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu fod angen cynnal proses ymgynghori ynghylch yr adolygiad o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Un o gyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol, yn rhinwedd ei swydd fel Awdurdod Trwyddedu ac yn unol ag Adran 5 Deddf Trwyddedu 2003, ydi cymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu.
- 2.2 Yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r Swyddfa Gartref dan Adran 182 y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ac ymgynghori ynghylch Datganiad Polisi Trwyddedu o leiaf bob pum mlynedd.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Adran 5 Deddf Trwyddedu 2003.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Daeth y Datganiad Polisi Trwyddedu presennol i rym ar 1 Ebrill 2017 ac mae'n bryd ei adolygu.
- 4.2 Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn sefydlu fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer caniatâd neu amrywiadau i amodau a thelerau presennol. Mae'r Polisi yn bwysig iawn gan fod y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgor yn gorfod rhoi sylw dyledus iddo, ynghyd â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, wrth benderfynu ar geisiadau a wrthwynebir.

- 4.3 Mae'n bryd adolygu'r Polisi presennol ac mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal proses ymgynghori. Yn unol â'r amserlenni statudol, mae'n rhaid rhoi'r Polisi diwygiedig ar waith ym mis Ebrill 2022.
- 4.4 Ystyrir, er bod yn rhaid i Ddatganiad Polisi Trwyddedu fod yn unigryw i bob awdurdod, ei bod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol petai awdurdodau cyfagos yn llunio datganiadau polisi tebyg. Am y rheswm yma, mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau arfaethedig wedi'u drafftio gan chwe Awdurdod Trwyddedu Gogledd Cymru, ac wedi'u hamlygu yn goch yn y Datganiad Polisi drafft. Mae copi o'r Polisi drafft ar gael yn Atodiad A.
- 4.5 Nid oes newidiadau sylweddol wedi'u cynnig oni bai am gynnwys newidiadau deddfwriaethol, cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, cryfhau materion yn ymwneud â chyffuriau a chynnwys mentrau lleol. Mae'r holl newidiadau arfaethedig wedi'u hamlygu yn y ddogfen ynghlwm sydd ar gael yn Atodiad A.

5. YMGYNGHORI

- 5.1 Er mwyn bodloni gofynion statudol, byddwn yn ymgynghori gyda'r asiantaethau canlynol:
Heddlu Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwasanaethau Cynllunio
Safonau Masnach
Iechyd yr Amgylchedd
Gwasanaethau Plant
Iechyd a Diogelwch
Mewnfudo
Trwyddedu
Cynrychiolwyr y fasnach drwyddedig leol
Cynrychiolwyr busnesau a thrigolion lleol
Holl Gynghorwyr Sir, Tref a Chymuned
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- 5.2 Bydd hysbysiad cyhoeddus hefyd yn cael ei roi mewn papur newydd priodol ac ym mhrif adeiladau'r Cyngor.
- 5.3 Yn ogystal â'r uchod, cysylltir â'r holl ddalwyr trwydded i'w hysbysu am y broses ymgynghori ac i ofyn am eu barn.
- 5.4 Yn dilyn yr ymgynghoriad, os derbynnir sylwadau, bydd y swyddogion yn

adrodd yn ôl i gyfarfod mis Rhagfyr. Fodd bynnag, os na ddaw sylwadau i law, bydd y swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo'r Datganiad Polisi drafft.

ARGYMHELLIAD

6.

6.1

Bod yr Aelodau yn ystyried y Datganiad Polisi Trwyddedu drafft ac yn awdurdodi'r swyddogion i ddechrau'r ymgynghoriad, a

- a. Os na cheir sylwadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bod yr Aelodau yn cefnogi cyflwyno'r Datganiad Polisi Trwyddedu drafft i'r Cyngor Llawn, neu
- b. Os derbynnir sylwadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bod y swyddogion yn adrodd yn ôl i gyfarfod mis Rhagfyr y Pwyllgor Trwyddedu